



CANEUON Y CÔR Cae o Yd—Arfon Wyn



Arfon Wyn efo Mike Peters a drymiwr yr Alarm mewn cyngerdd ar gyfer y Gymdeithas Alzheimers Bae Colwyn 2014.

Gallwch glywed “Cae o Yd”, efo Martin Beattie yn canu, ar *U Tube*. Yno hefyd mae perfformiad yn Sesiwn Fawr Dolgellau gan Elin Fflur a Moniars. Gwglwch “Cae o Yd” i’w canfod.



Arfon Wyn yw pencampwr y gystadleuaeth Cân i Gymru. Enillodd bedair gwaith i gyd. Ei ganeuon llwyddiannus yw:

1979	Ni welaf yr Haf - Nest Howells
2000	Cae o Yd - Martin Beattie
2002	Harbwr Diogel - Elin Fflur
2015:	Y Lleud a’r Ser - Elin Angharad

- Magwyd Arfon yng Ngwalchmai a Llanfairpwll. Mae’n byw rwan yn Llangwyllgog, Ynys Môn.
- ‘Rôl gadael Ysgol David Hughes, Porthaethwy, bu’n astudio ym Mhrifysgol Bangor.
- Roedd Arfon yn Bennaeth Ysgol Arbennig Hafod Lon ac yna Ysgol Gynradd Biwmares cyn ymddeol.
- Mae’n rhedeg dosbarthiadau therapi cerdd rheolaidd yn Galeri.
- Fel aelod o’r **Moniars** y mae Arfon yn fwyaf cyfarwydd i lawer ohonom. Dros y blynyddoedd rhoddodd y band lwyfan i lawer o gantorion ifanc talentog, fel Elin Fflur a Sara Mai.
- Prin fod penwythnos yn mynd heibio pan nad yw’r Moniars ac Arfon Wyn yn perfformio mewn sioe neu wyl rywle yng Nghymru.
- Mae Nest Howells, enillydd cân 1979 yn fam i Elin Fflur, enillydd cân 2002!
- Cae o Yd yw un o hoff ganeuon yr Athro a bardd Gwyn Thomas.

Mewn neges arbennig i Gôr Meibion Caernarfon dywedodd Arfon Wyn:

“Ysgrifennwyd Cae o Yd ar adeg dathliadau Mileniwm 2000. Roedd tân gwyllt dros y byd i groesawu’r ganrif newydd. Roedd optimistiaeth i wella ym mhob man ond “yr un yw’r anawstera” dim ond yr “actorion” sy’n newydd. Ac mae’r gynnaun dal i’w clywed heddiw mewn mannau fel Syria.

“Ond rhaid byw mewn gobaith. Bob gwanwyn, wrth imi deithio i Ysgol Biwmares gwelwn ffarmwr Cremlyn yn hau hadau yd —yn y caeau ar ochr chwith ac ochr dde’r ffordd bob yn ail. Bob haf, er gwaethaf pawb a phopeth, deuai cnwd helaeth o yd yn wobwr am ei lafur, a’i ffydd. Weithiau, byddai Gwyddau Canada’n gwledda’n harti, ond dal i hau a dal i fedi a wna’r ffarmwr.

“Gobeithio y caf gyfle i alw heibio eich ymarfer yn Galeri i glywed trefniant Delyth. Pob hwyl efo’r dysgu!